



Cynhadledd Genedlaethol Ymgysylltu â Thenantiaid 2025

12 / 13
Tachwedd

Gyda diolch i'n noddwyr trwy'r flwyddyn:



Rhaglen y Gynhadledd*

**yn amodol ar newidiadau*

Noson Ychwanegol Opsiynol – Dydd Mawrth 11 Tachwedd 2025

Amser	Sesiwn
4.00pm - 5.00pm	Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd a'r Gwesty
5.00pm – 5.45pm	CCB TPAS Cymru
7.00pm	Cinio Anffurfiol ac yna ein 'Cwis Tafarn' Hwyllog! <i>(i'r rhai sydd wedi archebu lleoedd preswyl)</i>

Dydd Mercher 12 Tachwedd 2025

Amser	Sesiwn
8.45 – 10:30am	Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd, Lluniaeth a Rhwydweithio

Croeso i'r Gynhadledd – Gosod yr olygfa
David Wilton, Prif Weithredwr TPAS Cymru

Yn agor y Gynhadledd – siaradwr gwadd Kay Redhead, Tenant, Actifydd Cymunedol, Aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai, a Mam

Gwerth profiad byw – fy stori fel tenant

Gydag angerdd, gonestrwydd, a phrofiad byw wrth wraidd ei stori, bydd Kay yn mynd â ni ar ei thaith dai bwerus - o oresgyn digartrefedd wrth fagu teulu, i ddod yn llais cryf dros denantiaid ac yn eiriolwr brwd dros ei chymuned. Nid ysbrydoledig yn unig yw stori Kay - mae'n alwad i weithredu. Dewch i glywed yr hyn y mae hi wedi'i ddysgu, yr hyn sydd wedi newid, a pham mae lleisiau profiad byw yn bwysicach nawr nag erioed.

Y Ddadl Panel Agoriadol Fawr

Ymhelaethu ar Leisiau Tenantiaid: Cael Eich Gweld a'ch Clywed Bob Cam o'r Ffordd

Ymunwch â ni am ddadl agoriadol egniïol sy'n canolbwyntio ar **un syniad**: rhaid i leisiau tenantiaid fod wrth wraidd penderfyniadau tai cyfredol. Mae'r sesiwn hon yn dod â thenantiaid, staff ac arweinwyr ynghyd mewn sgwrs onest am **wrando, dysgu ac ymateb**, nid fel ystum, ond fel sylfaen ar gyfer ymgysylltu ystyrlon.

Byddwn yn archwilio sut y dylid clywed lleisiau tenantiaid yn y sgysiau tai allweddol diweddaraf; o **osod rhent** a **fforddiadwyedd** i **ôl-osodiadau, atgyweiriadau**, a'r Safon Ansadd Tai Cymru (**SACT**).

Pam? Oherwydd pan fydd tenantiaid yn siarad, mae tai yn gwella.

Gyda'n gilydd, gadewch inni ymrwymo i weithredu, cydweithio, a dylanwad go iawn - oherwydd, pan glywir lleisiau tenantiaid, rydym i gyd yn ennill.

12.00pm-
1.15pm

Cinio, Arddangosfeydd, a Rhwydweithio

Sesiwn Gweithdy A: 1.15pm – 2.30pm

Eich dewis o sesiynau gweithdy

A1

Ffocws ar SATC ac RhOO: Ble Ydym Ni a Beth Sydd Nesaf

Ymunwch â ni am sesiwn fywiog gyda Llywodraeth Cymru i gael y diweddariadau diweddaraf ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a'r Rhaglen Ôl-osod Wedi'i Optimeiddio (RhOO). Byddwn yn rhannu straeon go iawn am yr hyn sy'n gweithio'n dda i denantiaid, yr hyn a allai fod yn well, a'r heriau y mae landlordiaid yn eu hwynebu wrth wella cartrefi. Dyma'ch cyfle i glywed yn onest, dysgu beth sy'n dod nesaf, a gweld sut y gellid trawsnewid eich cartref yn y dyfodol!

Siaradwyr: Uwch Swyddogion, Llywodraeth Cymru

A2

Beth Nesaf ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yng Nghymru? *Wedi'i ailadrodd i chi yn B2*

Byddwch yn rhan o'r sesiwn amserol hon lle byddwn yn plymio i'r diweddariadau diweddaraf ar renti tai cymdeithasol yng Nghymru. Clywch yn uniongyrchol gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n arwain y gwaith pwysig hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn adnewyddu'r 'Safon Rhent' - y polisi sy'n tywys sut mae landlordiaid cymdeithasol yn gosod ac yn addasu rhenti. Felly, beth sy'n newid? A beth mae'n ei olygu i denantiaid a landlordiaid?

Byddwn yn archwilio sut mae polisi rhent wedi'i adnewyddu yn anelu at daro cydbwysedd teg - amddiffyn tenantiaid rhag pwysau ariannol, tra'n dal i gefnogi buddsoddiad mewn cartrefi, gwasanaethau, a dyfodol tai cymdeithasol.

P'un a ydych chi'n denant, yn landlord, neu ddim ond â diddordeb yn y cyfeiriad mae pethau'n mynd, mae'r sesiwn hon ar eich cyfer chi.

Siaradwyr: Uwch Swyddogion, Llywodraeth Cymru

A3	Y Saesneg Llawn – beth allwn ni ei ddysgu o Ymgysylltu â Thenantiaid dros y ffin Wrth i dai cymdeithasol newid ledled Lloegr trwy reoliadau newydd, technolegau, a disgwyliadau newidiol tenantiaid, sut mae dulliau ymgysylltu â thenantiaid yn esblygu? This engaging workshop will explore the latest trends, tools, and approaches driving meaningful tenant engagement in England today. Learn what's working on the ground, what's changing, and walk away with fresh insights and practical ideas to inspire your own engagement efforts. Siaradwr: Emma Gilpin, Tpas (Lloegr)
A4	Cwrdd â'r Rheoleiddiwr: Y diweddariadau a'r newyddion diweddaraf ar Reoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru Llywodraeth Cymru sy'n rheoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru i amddiffyn tenantiaid a buddsoddiad mewn tai. Dewch i'r gweithdy hwn i glywed yn uniongyrchol gan dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru. Darganfyddwch sut mae Rheoleiddio yn gweithio ar hyn o bryd, beth sy'n newid, beth mae'r Rheoleiddwyr yn ei weld a sut mae rheoleiddio yn amddiffyn tenantiaid. Siaradwyr: Uwch Swyddogion, Tîm Rheoleiddio Llywodraeth Cymru
A5	Yn Gryfach Gyda'n Gilydd: Adeiladu Cydlyniant Cymunedol Go Iawn Mewn cyfnodau o raniad, mae'n bwysicach nag erioed i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n ein huno. Mae'r gweithdy ymarferol hwn, sy'n canolbwyntio ar bobl, yn archwilio beth rydyn ni'n ei olygu wrth amrywiaeth, sut y gallwn bontio rhaniadau, a sut, gyda'n gilydd, y gallwn adeiladu cymunedau cryf. P'un a ydych chi'n landlord, yn gymydog, yn wirfoddolwr cymunedol, neu'n syml yn gofalu am eich cymuned, dyma le i rannu, gwrandao a dysgu. Siaradwyr: Prosiect Cydlyniant Cymunedol
A6	Bydd hynny'n eu cael i siarad! - Cefnogi pobl i gysylltu a rhannu eu llais a'u meddyliau. Rydyn ni i gyd wedi bod yno ar ryw adeg - cerdded i mewn i gyfarfod, grŵp neu ddigwyddiad lle mae pawb ychydig yn ansicr ynglŷn â beth i'w ddweud neu ei wneud. Y newyddion da? Nid oes rhaid iddo fod felly. Yn y gweithdy hamddenol ac ymarferol hwn, byddwn yn archwilio ffyrdd syml o dorri'r iâ, helpu pobl i sgwrsio a meithrin cysylltiadau fel y gall y pethau da ddigwydd. Gyda'n gilydd, byddwn yn cyfnewid rhai syniadau ac yn rhoi cynnig ar ychydig o weithgareddau i ni ein hunain, fel eich bod yn gadael gydag ychydig o offer hawdd a pharod i'w defnyddio i fynd yn ôl i'ch grwpiau a'ch digwyddiadau eich hun. Hwylusydd: Sam Evans, Aelod Cyswllt TPAS Cymru
2.30pm - 3:15pm	Egwyl Lluniaeth, Arddangosfeydd a Rhwydweithio

Sesiwn Gweithdy B: 3.15pm-4.30pm

Eich dewis o sesiynau gweithdy

B1	Y Newidiadau Mawr mewn Tai yng Nghymru: beth sy'n digwydd a beth allai hyn ei olygu i denantiaid a landlordiaid cymdeithasol? Yn y sesiwn fewnwelediadol hon, byddwch yn clywed y newyddion polisi diweddaraf ac yn dysgu am yr hyn sy'n bwysig a'r hyn sydd ar ddod ym maes polisi tai. O Rent, i ddiogelwch adeiladau, i lais tenantiaid - byddwn yn clywed y newyddion diweddaraf a'r tueddiadau a ragwelir. Beth fydd newidiadau'n ei olygu i landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid yng Nghymru? Gyda Etholiad y Senedd 2026 ar y gorwel, dyma sesiwn na ddylid ei cholli. Siaradwyr: Ar gyfer y sesiwn hon bydd panel o arbenigwyr polisi tai mwyaf dylanwadol Cymru yn ymuno â ni.
B2	Beth Nesaf ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yng Nghymru? <i>Wedi'i ailadrodd i chi yn A2</i> Byddwch yn rhan o'r sesiwn amserol hon lle byddwn yn plymio i'r diweddariadau diweddaraf ar renti tai cymdeithasol yng Nghymru. Clywch yn uniongyrchol gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n arwain y gwaith pwysig hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn adnewyddu'r 'Safon Rhent' - y polisi sy'n tywys sut mae landlordiaid cymdeithasol yn gosod ac yn addasu rhenti. Felly, beth sy'n newid? A beth mae'n ei olygu i denantiaid a landlordiaid? Byddwn yn archwilio sut mae polisi rhent wedi'i adnewyddu yn anelu at daro cydbwysedd teg - amddiffyn tenantiaid rhag pwysau ariannol, tra'n dal i gefnogi buddsoddiad mewn cartrefi, gwasanaethau, a dyfodol tai cymdeithasol. P'un a ydych chi'n denant, yn landlord, neu ddim ond â diddordeb yn y cyfeiriad mae pethau'n mynd, mae'r sesiwn hon ar eich cyfer chi. Siaradwyr: Uwch Swyddogion, Llywodraeth Cymru
B3	Cwrdd â'r Ombwdsmon: Pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, a beth rydym yn ei weld. Dysgwch fwy am rôl swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â phwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys tai cymdeithasol. Clywch y diweddaraf gan Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys: • y mathau o gwynion y maent yn delio â nhw ar hyn o bryd, gan gynnwys y themâu tai allweddol • pryd y gellir gwneud cwynion i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol a beth y gallant ei wneud os ydynt yn gweld bod rhywbeth wedi mynd o'i le • sut y gall landlordiaid cymdeithasol ddelio â chwynion mewn ffordd adeiladol, gan fod o fudd i landlordiaid a thenantiaid Siaradwr: Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

B4	Herio Stori Tlodi: Yn ystod argyfwng costau byw, gall pwysau stigma tlodi fod yr un mor niweidiol â thlodi ei hun. Gall hyn gael effaith wirioneddol ar lawer yn ein cymunedau. Yn y sesiwn hon, byddwn yn archwilio beth yw stigma tlodi a sut, gyda'n gilydd, y gall pobl helpu i ail-lunio'r naratif, herio rhagdybiaethau niweidiol, a thanio newid sy'n dechrau gydag urddas a pharch. Byddwch yn rhan o'r sgysiau pwysig hyn. Siaradwyr: Rhwydwaith Mewnwelediad Stigma Tlodi
B5	'Beth mae Prif Weithredwr Cymdeithas Tai yn ei wneud mewn gwirionedd?' O'u cyfrifoldebau a'u cylch gwaith, y pethau da a'r hyn sy'n eu cadw'n effro yn y nos, i sut mae Llais y Tenantiaid yn dylanwadu ar eu gwaith. Byddwn hefyd yn cael gwybod am yr heriau y mae Cymdeithasau Tai yn debygol o'u hwynebu yn 2026. Sesiwn graff na ddylid ei cholli, felly ymunwch â'r sgwrs hon gyda Helen White, Prif Weithredwr Taf, i ddarganfod popeth am rôl Prif Weithredwr Cymdeithasau Tai. Siaradwr: Helen White, Tai Taf
B6	Deall a gostwng eich Bil Ynni: O Ddryslyd i Reolaeth! Wedi drysu gan eich bil ynni? Dydych chi ddim ar eich pen eich hun - ond gallwch chi gymryd rheolaeth. Mae'r gweithdy ymarferol hwn wedi'i gynllunio ar gyfer tenantiaid sydd eisiau rhoi'r gorau i ddyfalu a dechrau arbed. Mae hefyd yn sesiwn wych i staff sy'n cefnogi Tenantiaid. Byddwn yn dadansoddi bil ynni ac yn egluro'r elfennau allweddol a'r wybodaeth sydd ynddo. Byddwch yn dysgu sut i weld manylion pwysig, osgoi peryglon cyffredin, a deall yn well beth rydych chi'n talu amdano. Byddwn hefyd yn rhannu awgrymiadau a chynghorion defnyddiol i'ch helpu i leihau'r defnydd o ynni a gostwng eich biliau. Siaradwyr: Cymru Gynnes
4.30pm	Diwedd Dydd 1
7.00pm	Cinio Cynhadledd ac adloniant i ddilyn <i>(i'r rhai sydd wedi archebu lleoedd preswyl)</i>

DYDD 2 AR Y DUDALEN NESAF > > >

Amser	Sesiwn
8.30 – 9.30am	Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd
9.30 – 10.00am	Y Sesiwn Agoriadol Fawr
	Beth mae Tenantiaid yn ei ddweud mewn mannau ar-lein, pan nad ydych chi o gwmpas!: Pŵer gwrandio lle mae tenantiaid eisoes yn siarad Mae tenantiaid yn rhannu eu lleisiau ar-lein bob dydd, mewn adrannau sylwadau, fforymau a grwpiau, felly beth maen nhw'n ei ddweud? Gall y sgysiau digidol hyn gynnig cipolwg gwerthfawr ar anghenion a phrofiadau tenantiaid. Maent yn cynnig ffynhonnell gyfoethog, ond yn aml yn cael ei hanwybyddu, o lais tenantiaid a all ddatgelu materion sy'n dod i'r amlwg, anghenion heb eu diwallu, darparu cyfleoedd ar gyfer perthnasoedd cryfach a chyfle i 'glywed y distawrwydd'. Eto i gyd, nid yw'r 'gwrandio' hwn yn cael cymaint o sylw â dulliau mwy traddodiadol o gyfathrebu ac ymgysylltu â thenantiaid. Bydd y sesiwn hon yn rhannu: • Yr hyn rydyn ni wedi'i weld a'i glywed • Sut i wrando'n fwy manwl ar y sgysiau hyn • Datgelu'r safbwyntiau sydd bwysicaf a, • Eu defnyddio i gryfhau ymddiriedaeth, ymatebolrwydd ac ymgysylltiad ystyrlon â thenantiaid Ymunwch â ni i ddatgelu pŵer gwrandio lle mae tenantiaid eisoes yn siarad. Siaradwyr: TPAS Cymru
Sesiwn Gweithdy C: 10.00am – 11.15am Eich dewis o sesiynau gweithdy	
C1	Tai Awdurdod Lleol - gadewch i ni greu rhai atebion newydd! Gall gwaith gwych Awdurdodau Lleol (ALL) ym maes tai gael ei gysgodi weithiau gan eu cymdogion Cymdeithasau Tai mwy swmlyd! Ni fydd gan y sesiwn hon gyflwyniadau na siaradwyr ffurfiol, ond yn hytrach bydd yn weithdy rhyngweithiol i staff, tenantiaid a chefnogwyr ALL ddweud eu dweud. Gyda'n gilydd byddwn yn datblygu atebion newydd i rai o'r heriau sy'n wynebu'r darparwr allweddol hwn o dai cymdeithasol a gwasanaethau eraill. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar yr heriau mawr, gan gynnwys: • Cael staff ehangach i gymryd rhan yng nghysylltiad tenantiaid. • Sut y gall Tai wella ei gyfathrebu o fewn sianeli cyfathrebu'r Awdurdodau Lleol • Beth sy'n ein dal yn ôl? a sut ydym ni'n chwalu'r rhwystr hwnnw? Hwylusydd: David Wilton, Prif Weithredwr TPAS Cymru
C2	Gweld lle gall eich creadigrwydd fynd â chi! - Rhoi cynnig ar gelf a chrefft hawdd gan greu eich cylchgrawn eich hun! Dewch draw i'r sesiwn celf a chrefft hwyliog ac anffurfiol hon - does dim angen unrhyw brofiad celf arnoch chi, mae croeso i bawb ddod i roi cynnig arni! Byddwn ni'n cael amser hamddenol yn rhoi cynnig ar greu Zines (ynganiad Zeen). Mae Zines braidd yn debyg i lyfr sgrap bach a gallant fod yn ffordd greadigol o

	rannu'r hyn rydych chi'n ei hoffi, yr hyn rydych chi'n angerddol amdano neu'n syml i adrodd stori bersonol. Byddwch chi'n gwneud eich Zine eich hun i fynd ag ef adref gyda chi. Beth am roi cynnig arni ac yna efallai defnyddio celf a chrefft fel ffordd hwyliog o ymgynghori â'ch tenantiaid neu'ch cymuned a rhannu gwybodaeth gyda nhw? Gwesteiywr: TPAS Cymru
C3	Cartrefi Gwell, Bywydau Iachach: Sut mae ein cartrefi'n effeithio ar ein hiechyd, ein lles, a'n hymdeimlad o gymuned? Mae Rhwydwaith Ymchwil Tai ac Iechyd Prifysgol De Cymru wedi bod yn archwilio hyn, o safbwyntiau tenantiaid ar dechnolegau tai newydd i hyfforddi timau rheng flaen a darganfod beth sy'n creu cartrefi iachach mewn gwirionedd. Ymunwch â ni i rannu, herio a llunio'r camau nesaf ar gyfer cartrefi gwell a bywydau iachach. Siaradwyr: Dan Bowers a Dr Nyle Davies, Prifysgol De Cymru
C4	Datgloi Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar gyfer Ymgysylltu â Thenantiaid: a allai fod yr offeryn mwyaf gwerthfawr rydych chi'n chwilio amdano?? Ymunwch â ni am daith gerdded ddiddorol o hanfodion deallusrwydd artiffisial, ac yna archwiliad ymarferol o sut y gall offer Deallusrwydd Artiffisial (AI) - fel ChatGPT - wella Ymgysylltiad Tenantiaid. A allai AI fod yr offeryn pwerus rydych chi wedi bod yn chwilio amdano i drawsnewid y ffordd rydych chi'n cysylltu â thenantiaid? Siaradwr: Martin Little, TPAS Cymru
C5	Datgelu Pymphiau Gwres a Phaneli Solar mewn Tai Cymdeithasol Mae pymphiau gwres a phaneli solar yn dod yn ffyrdd poblogaidd o arbed ynni mewn tai cymdeithasol, ond beth ydyn nhw a sut maen nhw'n gweithio? Yn y sesiwn ymarferol hon, byddwn yn egluro'r dechnoleg mewn ffordd syml, hawdd ei deall. Byddwch yn dysgu sut mae'r systemau hyn yn gweithio, y manteision go iawn i'ch cartref, a beth i'w ddisgwyl pan gânt eu gosod. Erbyn y diwedd, byddwch yn teimlo'n wybodus, yn cael eich cefnogi, ac yn hyderus ynghylch uwchraddio ynni carbon isel a fforddiadwy ar gyfer eich cartref.. Siaradwyr: Cymru Gynnes
11.15am – 12.00pm	Egwyl Lluniaeth a Rhwydweithio
Sesiwn Gweithdy D: 12.00pm – 1.00pm Eich dewis o sesiynau gweithdy	
D1	Adfywio ein Strydoedd Mawr a Chanol Trefi: A oes Rôl i Landlordiaid Cymdeithasol a Thenantiaid? Ledled Cymru, mae siopau gwag ac adeiladau segur yn cael eu trawsnewid yn fannau bywiog sy'n cyfuno manwerthu, tai a defnyddiau cymunedol. Ymunwch â ni mewn sesiwn arbennig i archwilio heriau a chyfleoedd adfywio trefol.

	Clywch gan arbenigwyr blaenllaw, dysgwch am brosiectau sy'n digwydd nawr mewn cymunedau a darganfyddwch sut y gall tenantiaid a landlordiaid cymdeithasol gydweithio i roi bywyd newydd i strydoedd mawr lleol. Sesiwn fywiog, amserol, a chyfoes – dyma un na fyddwch chi eisiau ei cholli. Siaradwyr: I'w gadarnhau
D2	Sgyrsiau Sy'n Gweithio: Datgloi Cryfderau, Datrysiadau a Dylanwad. Sut allwn ni gael sgyrsiau sy'n gadael i bobl fod yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain? Sut allwn ni ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u syniadau yn gyntaf i helpu i ddatrys problemau a galluogi pobl i gael dewisiadau, llais a dylanwad. Mae'r gweithdy hwn yn gyfle i ddod at ein gilydd fel cyfartalion, archwilio sut rydym yn cyfathrebu; a myfyrio ar sut y gall ein meddyliau a'n teimladau weithiau rwystro'r hyn a ddywedwn. P'un a ydych chi'n aelod o staff sydd eisiau gwella sut rydych chi'n gwrando ar denantiaid neu'n eu grymuso, neu'n denant sy'n awyddus i helpu eraill i gael llais, ymunwch â ni i ddysgu sut i gael sgyrsiau sy'n gweithio go iawn. Siaradwyr: Credu
D3	"Rydyn ni jyst eisiau..." Gwasanaethau Atgyweirio – Yr hyn sydd bwysicaf i Denantiaid? Nid yw darparu gwasanaeth atgyweirio o ddydd i ddydd byth yn syml - mae costau cynyddol, galw cynyddol a disgwyliadau uwch i gyd yn ychwanegu pwysau. Ond beth sydd wirioneddol bwysicaf i denantiaid? Yn y gweithdy rhyngweithiol hwn, byddwn yn archwilio beth sydd bwysicaf i Denantiaid a beth sy'n wirioneddol bwysig o ran atgyweiriadau. Os yw'ch landlord eisoes yn ei wneud yn iawn, dewch i rannu'r pethau da, gallai eich profiadau ysbrydoli eraill! Hwylusydd: David Lloyd, TPAS Cymru
D4	O Wersi i Brofiad Byw: Cryfhau Llais Tenantiaid wrth Bontio Sero Net Mae cartrefi yn newid gyda Sero Net, SATC ac ORP yn llunio dyfodol tai yng Nghymru. Ble mae tenantiaid yn ffitio i mewn? Mae'r gweithdy hwn yn rhannu mewnwelediadau sector a thenantiaid ar yr hyn sy'n gweithio, yr heriau, a'r hyn sydd angen newid. Byddwn hefyd yn dod â gwersi cynnar o'r prosiect <i>'Informed by Experience'</i> ar ymgysylltiad preswylwyr mewn cartrefi carbon isel ac yn gofyn am eich barn ar rai o weithgareddau arfaethedig y prosiect. Hwyluswyr: Akshita Lakhiwal, TPAS Cymru; Fiona Shirani, Prifysgol Caerdydd a Milly Warner, Stride Treglown
D5	Mynd i'r Afael â Thlodi mewn Cymunedau drwy gydweithio arloesol Darganfyddwch brosiect hyfforddi cydweithredol arloesol a gynlluniwyd i fynd i'r afael â thlodi drwy fewnwelediad a gweithredu dan arweiniad y gymuned. Darganfyddwch sut mae'r prosiect yn grymuso cymunedau a busnesau lleol i gydnabod yn well pryd y gallai fod angen cymorth ar unigolion a sut i ymateb yn

	effeithiol. Bydd y gweithdy hwn hefyd yn trafod sut y chwaraeodd trigolion â phrofiad byw o dlodi ran ganolog wrth gyd-greu cynnwys cwrs effeithiol. Yn ystod y gweithdy, bydd deunyddiau cwrs a phecynnau adnoddau yn cael eu rhannu i gefnogi ac annog cyflwyno'r fenter hon ar draws landlordiaid cymdeithasol eraill. Siaradwyr: Cymdeithas Tai Sir Fynwy
1.00 – 2.00pm	Cinio, Arddangosfeydd a Rhwydweithio
Y Sesiwn Olaf Hanfodol: 2pm – 3.15pm	
Edrych Ymlaen: Yr hyn sydd bwysicaf i Denantiaid mewn gwirionedd?	
Wrth i ni ddod â'r gynhadledd i ben, mae'r sesiwn hon yn edrych i'r dyfodol, trwy lygaid tenantiaid. Gyda etholiadau'r Senedd ar y gorwel a thai yng Nghymru yn cael eu datganoli, mae newidiadau mawr ar y gweill. Beth sydd bwysicaf yn y blynyddoedd i ddod? Beth yw'r blaenoriaethau, y pryderon a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg i denantiaid ddylanwadu arnynt? Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu, byddwn ni'n myfyrio, rhannu ac amlygu'r materion sydd wirioneddol bwysig i denantiaid ar hyn o bryd, gan gynnwys ein maniffesto. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i lunio sut rydyn ni'n parhau i gydweithio – gyda phwrpas, atebolrwydd ac effaith. Mae eich llais yn hanfodol. Gadewch i ni orffen y diwrnod drwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf. Hwylusydd: Olivia Brown, TPAS Cymru	
3.15pm	Diwedd y Gynhadledd ac Ymadael

** rhaglen yn amodol ar newidiadau*